Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2025

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hydref 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi yr adroddiad hwn o dan adran 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni ar post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilydd Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad **Error! Bookmark not defined.**

Ffeithiau a ffigurau allweddol 7

Ein canfyddiadau 9

Argymhellion **Error! Bookmark not defined.**

Atodiadau 30

1 Ynglŷn â'n gwaith 31

2 Argymhellion archwiliad blaenorol **Error! Bookmark not defined.**

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 41

4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr 43

# Ciplolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Gwnaethom edrych ar ba mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn cael ei lywodraethu ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Gwnaethom edrych ar bedwar maes yn benodol:

- pa mor dda y mae ei fwrdd yn gweithio
- sut mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd y gwasanaeth, a'r argymhellion
- sut mae'n llunio cynlluniau a strategaethau allweddol
- sut mae'n rheoli ei gyllid.

2 Gwnaethom edrych ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu ein hargymhellion o:

- adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol
- adroddiad 2024 ar arbed costau.

3 Ni wnaethom edrych ar drefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Mae cyrff y GIG yn parhau i wynebu amrywiaeth eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymdrin â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, mae'n bwysicach nag erioed i fyrddau cyrff y GIG gael trefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf ar waith. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel, ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n gryf o hyd i dryloywder cyhoeddus ac mae ganddo drefniadau llywodraethu da o hyd. Mae gwybodaeth o ansawdd da yn cefnogi gwaith craffu, ond mae cyfle i egluro proses Tair A er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi gwaith craffu yn effeithiol. Ers y llynedd, mae'r Bwrdd wedi sefydlogi, heb unrhyw drefniadau interim yn y Tîm Gweithredol.

6 Mae trefniadau cryf ar gyfer goruchwylio risgiau, y perfformiad, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, ac argymhellion archwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella ansawdd y data ac i gryfhau ymhellach y trefniadau goruchwylio ansawdd a diogelwch. Mae cyfle i egluro goruchwyliaeth pwyllgorau ar ddangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adnewyddu ei strategaeth hirdymor ac yn cynnal goruchwyliaeth dda dros ddatblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'i Gynllun Gwasanaethau Clinigol, dim ond naw o'i wasanaethau mwyaf bregus y mae'r cynllun yn eu cwmpasu ar hyn o bryd.

8 Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn bryder, a rhagwelir diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2025-26, ac nid yw'r cynllun arbedion ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a oedd yn gytbwys yn ariannol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella diffyg ei gynllun agoriadol o £31.5 miliwn, ac ym mis saith, mae'n rhagweld diffyg o £28.3 miliwn. Mae hefyd yn cymryd camau i wella'r sefyllfa o ddiffyg ac i gyflawni cynaliadwyedd ariannol erbyn 2028-29.

## Yr hyn a argymhellir gennym

9 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd, sy'n canolbwyntio ar:

- egluro'r defnydd o broses Tair A (Alert (Rhybuddio), Advise (Cynghori), Assure (Sicrhau))

- diweddaru Dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio pwyllgorau.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

O dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd ar Lefel 4 o ran cyllid, strategaeth a chynllunio, gofal brys a gofal mewn argyfwng, gwasanaethau brau (gan gynnwys offthalmoleg) a Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd. Mae hefyd ar Lefel 3 o ran arweinyddiaeth a llywodraethu, a gofal a gynlluniwyd a chanser.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Blynyddol na Chynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2025-26.

Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon ar ei wariant refeniw yn ystod y flwyddyn a thros gyfnod o dair blynedd, ac adroddodd ddiffyg cronnol tair blynedd o £148.9 miliwn.

Yn 2024-25, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd £31.5 miliwn mewn arbedion, o'u cymharu â tharged o £32.4 miliwn. Ei darged arbedion ar gyfer 2025-26 yw £46.4 miliwn. Ym mis saith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi £48.4 miliwn mewn arbedion, gan gyflawni £31.5 miliwn, ond mae bwlch o £4.7 miliwn mewn arbedion rheolaidd.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £28.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, o’i gymharu â disgwyliad Llywodraeth Cymru o £24.1 miliwn.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu pum argymhelliad dros ben yn llawn ers ein hadroddiad asesu strwythuredig diwethaf. Mae un argymhelliad yn dal i fod ar y gweill.

# Ein canfyddiadau

## Effeithiolrwydd a didwylledd y Bwrdd

**Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dal i weithio'n dda, yn dal i fod yn dryloyw ac yn ymrwymedig i wrando ar gleifion a'r staff**

### Y graddau y mae busnes y bwrdd yn agored i'r cyhoedd

10 Mae gan y Bwrdd ymrwymiad cryf o hyd i dryloywder cyhoeddus drwy sicrhau:

- bod cyfarfodydd y Bwrdd yn cael cyhoeddusrwydd da ar wefan y Bwrdd Iechyd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol
- bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y cnawd, gwylio ffrwd fyw neu recordiad sydd wedi ei lanlwytho ar wefan y Bwrdd Iechyd ar ôl y cyfarfod
- bod papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd bum diwrnod o flaen y cyfarfodydd, gan gadw nifer y papurau hwyr cyn ised â phosibl
- mai dim ond i drafod pynciau sensitif y cynhelir cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau, a bod agendâu preifat y Bwrdd ar gael i'r cyhoedd
- bod papurau cyhoeddus y Bwrdd yn parhau i gynnwys crynodebau lefel uchel o drafodaethau preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau.

11 Nid yw cyfarfodydd pwyllgorau yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio. Er mwyn cefnogi tryloywder cyhoeddus, nod y Bwrdd Iechyd yw cyhoeddi cofnodion drafft ar ei wefan o fewn mis i bob cyfarfod. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd y llynedd, oherwydd cyfyngiadau capasiti, nid yw'r broses hon yn amserol bob amser.

## Cefnogi ymddygiad effeithiol y bwrdd

12 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd i gefnogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i redeg yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn chwarae swyddogaeth allweddol wrth sicrhau bod rheolaethau llywodraethu ar waith a'u bod yn cael eu dilyn. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a'u hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol.

13 Yn rhan o'r adolygiad o'r Rheolau Sefydlog eleni, diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Dirprwyo Corfforaethol i adlewyrchu ei strwythur gweithredol newydd.[1] Cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i'w Reolau Sefydlog a'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ym mis Mai a mis Gorffennaf 2025, yn y drefn honno. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trefniadau cryf i sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb, gan gynnwys cofrestrau buddiannau, rhoddion a lletygarwch cyfredol sydd ar gael ar ei wefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio'r trefniadau hyn drwy adroddiad sicrwydd blynyddol. Mae datganiadau o fuddiant yn dal i fod yn eitem sefydlog ar holl agendâu y Bwrdd a'r pwyllgorau.

15 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal prosesau clir er mwyn sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru. Er mwyn arwain y broses, mae ganddo bolisi dogfennau rheoli ysgrifenedig cyfredol, a adolygwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2025.

---

[1] Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei strwythur gweithredol newydd sy'n canolbwyntio ar bedwar Grŵp Gofal Clinigol: Meddyginiaethau Cymunedol a Chywirdeb Meddyginiaethau, Gwasanaethau Gweithredol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, a Gofal a Gynlluniwyd a Gofal Arbenigol.

16 Mae Grwpiau Gofal Clinigol yn cael eu dwyn i gyfrif am reoli polisïau drwy Sesiynau Gwella Gyda'n Gilydd Gweithredol a'r fframwaith uwchgyfeirio mewnol. Mae'r pwyllgorau'n parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am bolisïau sydd wedi dyddio a cheisiadau am gymeradwyaeth neu estyniad. Mae polisïau ar gael yn rhwydd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Sicrwydd ar effeithiolrwydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu

17 Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Ebrill 2024 fel cyd-bwyllgor y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn cynllunio ac yn comisiynu amrywiaeth o wasanaethau arbenigol a gwasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddygol mewn argyfwng, ar ran y saith bwrdd iechyd.

18 Yn rhan o asesiad strwythuredig eleni, gwnaethom adolygu a yw'r Bwrdd yn cael y lefel gywir o sicrwydd ar fusnes y Cyd-bwyllgor Comisiynu, yn ogystal â chyfranogiad y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd a gweithgareddau y Cyd-bwyllgor Comisiynu. Canfuom fod y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael sicrwydd arferol ar waith y Cyd-bwyllgor Comisiynu a'i isgrwpiau.

19 Ym mis Mehefin 2025, darparodd Cadeirydd, Prif Gomisiynydd, a thîm arweinyddiaeth y Cyd-bwyllgor Comisiynu eu gwybodaeth diweddaraf blynyddol i'r Bwrdd yn ystod sesiwn seminar y Bwrdd. Roedd Adroddiad y Cadeirydd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025 yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

20 Ym mis Ionawr 2025, cymeradwyodd y Bwrdd ei strwythur pwyllgorau newydd, a aeth yn fyw ym mis Ebrill 2025. Roedd hyn yn cynnwys diddymu'r Pwyllgorau Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol, ac Adnoddau Cynaliadwy, a sefydlu'r pwyllgorau newydd canlynol:

- Y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi
- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio.

21 Diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei strwythur pwyllgorau fel ei fod yn fwy cydnaws â'r meysydd ymyrryd wedi eu targedu ac er mwyn cryfhau'r pwyslais ar ddigidol, cyllid, perfformiad a chynllunio strategol. Mae'r newidiadau hefyd yn adlewyrchu sylwadau o adolygiadau o effeithiolrwydd pwyllgorau 2023-24, a amlygodd yr angen i bwyllgorau gael diben cliriach er mwyn sicrhau y'u deellir yn dda.

22 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, canfuom fod gan y pwyllgorau gylch gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd. Maent yn amlinellu cyfrifoldebau goruchwylio ar gyfer cynllunio amcanion yn glir a, phan fo hynny'n berthnasol, y cyfrifoldebau goruchwylio meini prawf ar gyfer isgyfeirio ymyriad wedi ei dargedu. Mae gan y Bwrdd raglen gwaith cyfredol hefyd.

23 Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn dal i gadeirio a chefnogi cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn dda. Rydym yn dal i weld gwaith craffu cryf a heriau gwasanaeth yn cael eu trafod yn agored. Mae aelodau annibynnol yn dal i fod ar agor pan nad ydynt yn sicr, a atgyfnerthir gan broses Tair A.

24 Fodd bynnag, canfuom fod trafodaethau yn rhai o'r pwyllgorau newydd yn gallu bod yn rhy weithredol. Dylai hyn wella wrth i'r pwyllgorau ymsefydlu. Rydym yn gweld materion yn cael eu cyfeirio rhwng pwyllgorau yn rheolaidd, ac mae cyfarfod cadeiryddion y pwyllgorau yn cefnogi'r broses hon hefyd.

25 Mae materion risg uchel yn parhau i gael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd drwy broses Tair A (Alert, Advise, Assure). Mae proses Tair A wedi bod yn cael ei defnyddio ers dros flwyddyn ac mae'n parhau i gael sylwadau cadarnhaol, yn enwedig ar y pwyslais gwell ar heriau allweddol. Mae'r broses yn cael ei defnyddio'n dda yn gyffredinol, ond mae'n dal i ymgorffori. Mae angen atgoffa rhai cadeiryddion pwyllgor i ddefnyddio'r broses, neu maent yn ymgynghori ag arweinwyr gweithredol am eu barn ar y lefelau sicrwydd. Dylai cadeiryddion pwyllgor ac aelodau annibynnol benderfynu ar eu lefelau sicrwydd heb gyfraniad gan arweinwyr gweithredol.

26 Mae risg hefyd y bydd pwyllgorau'n defnyddio'r sgôr 'Rhybuddio' (Alert) i uwchgyfeirio materion at y Bwrdd i'w gweithredu yn hytrach nag adolygu a ddylai'r pwyllgor barhau i oruchwylio'r maes pryder. Mae canllawiau clir ar y broses, ond dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal sesiwn friffio gydag aelodau annibynnol i atgyfnerthu'r broses.

## Ansawdd a phrydlondeb gwybodaeth y Bwrdd

27 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dal i gael papurau amserol o ansawdd da, a gefnogir gan ddangosfyrddau rhyngweithiol ac offer data. Yn gyffredinol, cawsom sylwadau cadarnhaol ar ansawdd papurau. Er bod rhai meysydd yr awgrymir eu bod yn cael eu gwella, maent yn ymwneud ag ailadrodd rhwng papurau, symiau y papurau, triongli gwybodaeth yn well, gwell pwyslais ar effaith camau gweithredu a gwell defnydd o ddata.

28 Yn gadarnhaol, rydym yn dal i weld swyddogion gweithredol yn mynd i bwyllgorau yn rheolaidd i gyflwyno papurau. Fodd bynnag, mae gan swyddogion wahanol lefelau o brofiad o gyflwyno ar lefel y pwyllgorau. I gefnogi hyn, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu hyfforddiant llywodraethu ar gyfer Grwpiau Gofal Clinigol. Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno. Cynhwysir canllawiau hefyd yn yr alwad am bapurau y Bwrdd a'r pwyllgorau.

## Gwrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth

29 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i wrando ar gleifion a'r staff. Mae mewnwelediadau i brofiadau cleifion yn cael eu rhannu drwy'r Adroddiad Gwella Profiad Cleifion a straeon cleifion a staff rheolaidd yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, y Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant, a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu adroddiadau ar brofiadau cleifion. Mae'r Bwrdd hefyd yn cwblhau hunanasesiad o'i gymharu ag Arolwg Profiad Pobl GIG Cymru, a bydd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Rhagfyr 2025.

31 Mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wrando ar ystod amrywiol o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, yn ystod ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth, megis y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, mae’n sicrhau ymgysylltiad cynhwysol drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gyrraedd grwpiau o ddinasyddion amrywiol. Mae aelodau y Bwrdd hefyd yn cadw cysylltiad â staff y rheng flaen drwy deithiau cerdded diogelwch cleifion rheolaidd, sy’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i wrando ar y staff a chleifion.

32 Mae proses ‘Codi llais’, a lansiwyd ym mis Hydref 2024, yn caniatáu i’r staff godi pryderon yn gyfrinachol. Mae’r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant a’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau adrodd a’r cynnydd wrth ei gweithredu ddwywaith y flwyddyn, ac ym mis Awst 2025 yr oedd y diweddariad diwethaf. Hefyd, mae sawl rhwydwaith staff a grwpiau cynghori sy’n adrodd i’r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant, gan gynnwys y rhwydwaith LGBTQ+, rhwydwaith y lluoedd arfog a’r Tasglu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd newydd ei sefydlu.

## Cydlyniant y Bwrdd a gwelliant parhaus

33 Gwnaethom adrodd newidiadau sylweddol ar lefel y Bwrdd y llynedd. Mae’r Bwrdd wedi sefydlogi ers hynny, heb unrhyw drefniadau interim ar lefel weithredol. Penodwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio interim a’r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol interim yn barhaol ym mis Ebrill a mis Mai 2025 yn y drefn honno. Hefyd, ymunodd yr Aelod Annibynnol (Cymuned) newydd â’r Bwrdd ym mis Mai 2025.

34 Fodd bynnag, bu newid sylweddol ar lefel weithredol. Ym mis Ebrill 2025, gweithredodd y Bwrdd Iechyd gam un o’i strwythur gweithredol newydd. Mae timau arweinyddiaeth bellach ar waith ar draws pob un o’r pedwar Grŵp Gofal Clinigol. Fodd bynnag, mae cam dau, sy’n canolbwyntio ar y strwythurau o dan bob grŵp gofal, yn dal i fod heb ei weithredu. Mae cyflymder y cynnydd yn dal i fod yn bryder i’r Bwrdd, oherwydd bod ansicrwydd parhaus yn gythryblus i’r staff. Nod y Bwrdd Iechyd yw cwblhau cam dau erbyn mis Rhagfyr 2025.

35 Mae'r Bwrdd yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i wrando a datblygiad. Mae ganddo raglen datblygu'r Bwrdd datblygedig iawn a gefnogir gan weithgareddau datblygu a dysgu sefydliadol. Mae dull y Bwrdd o werthuso ei effeithiolrwydd wedi ei hen sefydlu, ac mae'n parhau i ddefnyddio ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol.

36 Adnewyddodd y Bwrdd ei fatrics aeddfedrwydd ar gyfer ei adolygiad 2024-25. Yn lle rhoi sgôr aeddfedrwydd cyffredinol, asesodd a sgoriodd ei hun o'i gymharu â deg maen prawf. Mae'r dull hwn yn darparu dealltwriaeth gliriach o gryfderau y Bwrdd a'r meysydd i'w gwella.

# Darparu sicrwydd bwrdd

## Mae trefniadau cryf ar gyfer goruchwylio risgiau, y perfformiad, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, ac argymhellion archwilio

### Rheoli risgiau strategol a chorfforaethol

37 Mae gan y Bwrdd ddull aeddfed o hyd o oruchwylio risgiau strategol. Mae'r Bwrdd yn adolygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd bob yn ail cyfarfod. Cymeradwyodd y Bwrdd amcanion strategol newydd ar gyfer 2025-26 (gweler **paragraff 56**). Mae'r prif risgiau, y mesurau canlyniadau a'r amcanion cynllunio yn gydnaws â'r amcanion newydd.

38 Mae'r adroddiad clawr a'r dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn darparu crynodeb clir o'r cynnydd o'i gymharu â'r amcanion strategol a'r risgiau i gyflawni. Neilltuir amcanion cynllunio perthnasol i bob pwyllgor er mwyn craffu arnynt yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn glir ar ddangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

39 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal goruchwyliaeth gref o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol y mae'r Bwrdd yn ei chael bob yn ail cyfarfod. Mae pwyllgorau'n craffu ar y risgiau a neilltuir iddynt yn rheolaidd ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd drwy eu hadroddiadau sicrwydd.

40 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Adroddiad Sicrwydd a Risg yn ddiweddar. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bob pwyllgor am y prif risgiau, y risgiau corfforaethol a'r risgiau gweithredol a neilltuir iddynt. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion archwilio ac arolygu perthnasol, Cylchlythyrau Iechyd Cymru, a Chyfarwyddiadau Gweinidogol.

41 Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Rheoli Risgiau a Strategaeth Rheoli Risgiau diwygiedig y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2025. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau, ac mae'r strategaeth yn nodi amcanion gwella allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf. Nod yr amcanion yw:

- cefnogi trefniadau rheoli risgiau gweithredol i sicrhau dull cyson o ymdrin â pherchnogaeth a goruchwylio risgiau
- sicrhau bod y Bwrdd yn cadw golwg ar risgiau allweddol a meysydd sy'n peri pryder yn rheolaidd
- gwella aeddfedrwydd risg y Bwrdd Iechyd.

42 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dal i gael yr wybodaeth ddiweddaraf bob yn ail cyfarfod drwy'r Adroddiad Sicrwydd Risg am effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risgiau, a'r cynnydd ar y Strategaeth Rheoli Risgiau. Mae'r adroddiad yn cynnal dadansoddiad da o'r broses o reoli risgiau ar draws y sefydliad, gan gynnwys themâu, materion a statws uwchgyfeirio risgiau fesul Grwpiau Gofal Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol.

## Rheoli'r perfformiad

43 Mae Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd yn nodi dull rheoli a gwella perfformiad y Bwrdd Iechyd. Fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025, ac mae'r fframwaith diwygiedig yn adlewyrchu'r strwythur gweithredol newydd ac yn corffori trefniadau uwchgyfeirio cryfach. Mae'n cyflwyno pedwaredd lefel uwchgyfeirio ar gyfer meysydd a uwchgyfeirir nad ydynt yn dangos cynnydd digonol. Er bod angen rhagor o waith i ddiffinio sut y bydd y bedwaredd lefel yn gweithredu yn ymarferol.

44 Ym mis Ebrill 2025, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adroddiad sicrwydd sylweddol gan Archwilio Mewnol ar drefniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd. Canfu'r adolygiad fod y tîm Rheoli Perfformiad yn cefnogi adrannau yn weithredol, a bod adroddiadau rheolaidd ar ddata perfformiad. Gwnaeth yr adolygiad ddau argymhelliad blaenoriaeth ganolig yn ymwneud â thanberfformiad parhaus mewn gwasanaethau a uwchgyfeiriwyd a sicrwydd ansawdd data.

45 Ar wahân, ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar ansawdd data, gan nodi tri argymhelliad blaenoriaeth uchel ac un argymhelliad blaenoriaeth canolig. Roedd y rhain yn ymwneud ag adnoddau y Tîm Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth, prosesau cywiro data, absenoldeb metrigau ansawdd data, a diffyg strategaeth gwybodaeth a deallusrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu rhaglen gwella ansawdd data.

46 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dal i ddangos goruchwyliaeth gref o berfformiad y sefydliad. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn adolygu'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig, a chefnogir gan ei ddangosfwrdd ym mhob cyfarfod. Mae'n amlwg bod yr adroddiad clawr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig yn tynnu sylw at feysydd o berfformiad gwael.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella adroddiadau Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig drwy ddarparu'r wybodaeth manwl diweddaraf am y statws uwchgyfeirio ar gyfer Grwpiau Gofal Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol. Mae'r fformat newydd yn darparu trosolwg ar lefel y parth perfformiad, yn dangos y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf, ac yn amlinellu rhesymau dros feini prawf uwchgyfeirio ac isgyfeirio. Mae hyn yn adlewyrchu dull rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd sy'n aeddfedu ac yn dryloyw.

## Monitro ansawdd a diogelwch

48 Mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dal i oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Cefnogir hyn gan System Rheoli Ansawdd sy’n cwmpasu cynllunio, rheoli, a gwella ansawdd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn adnewyddu ei Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd 2023-26 gyda’r nod o geisio cymeradwyaeth y Bwrdd erbyn mis Mawrth 2026. Cafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yr wybodaeth ddiweddaraf am ei gynnydd ym mis Ebrill 2025.

49 Mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael sicrwydd drwy amrywiaeth o adroddiadau, gan gynnwys yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd a Diogelwch, archwiliadau dwfn, a’r wybodaeth ddiweddaraf am ei isgrwpiau, archwilio clinigol, ac arolygiadau.

50 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cryfhau’r broses o oruchwylio ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Cymeradwyodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad newidiadau i drefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch ym mis Awst 2025. Nod y newidiadau yw gwella pwyslais strategol ar lefel y pwyllgorau a chryfhau’r oruchwyliaeth weithredol.

51 Roedd y newidiadau yn cynnwys disodli’r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad â Grŵp Deallusrwydd Ansawdd a Diogelwch (QSIG) newydd. Mae QSIG yn adrodd i’r Grŵp Ansawdd, Cyllid, Perfformiad a Chyflenwi Integredig ar lefel weithredol. Erbyn hyn, mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd yn cael adroddiadau sicrwydd bob chwe mis gan bob Grŵp Gofal Clinigol ac Iechyd y Cyhoedd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn, gan adrodd i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Rhagfyr 2025. Bydd Archwilio Mewnol hefyd yn darparu adolygiad annibynnol.

52 Mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i weithredu dyletswyddau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020. Cyhoeddodd ei adroddiadau blynyddol 2024-25 gan amlinellu sut y cyflawnodd y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Derbyniodd y Bwrdd y ddau adroddiad yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2025.

### Olrhain a monitro argymhellion

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael sicrwydd ar olrhain argymhellion mewnol ac allanol bob yn ail cyfarfod. Ers mis Hydref 2025, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cydymffurfiaeth â Chylchlythyrau Iechyd Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr gan gynnwys statws argymhelliad, tueddiadau thematig, a dadansoddiad uwchgyfeirio mewnol o ran gweithredu argymhellion.

54 Mae pwyllgorau hefyd wedi dechrau cael Adroddiad Sicrwydd a Risg sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion archwilio ac arolygu perthnasol, yn ogystal â Chylchlythyrau Iechyd Cymru. Mae Swyddogion Gweithredol yn dwyn Grwpiau Gofal Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol i gyfrif am olrhain argymhellion drwy sesiynau Gwella Gyda'n Gilydd Gweithredol. Ym mis Tachwedd 2025, roedd 29 o argymhellion Archwilio Cymru a oedd yn agored ar draws yr holl adolygiadau, ac o'r rhain roedd 16 ohonynt yn hwyr.

55 Canfu ein hadolygiad o gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol sefyllfa gadarnhaol, gyda:

- Phump allan o chwe argymhelliad o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol wedi eu cwblhau erbyn hyn. Mae'r argymhelliad sy'n weddill ar y gweill.
- Mae pob un o'r 12 argymhelliad o'n hadroddiad arbed costau wedi eu cwblhau bellach. Trafodir hyn ymhellach ym **mharagraff 80**.

## Paratoi strategaethau a chynlluniau

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn adnewyddu ei strategaeth hirdymor ac yn cynnal goruchwyliaeth dda dros ddatblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol

## Llunio strategaethau a chynlluniau allweddol

56 Mae’r Bwrdd Iechyd yn adnewyddu ei strategaeth hirdymor, ‘Canolbarth a gorllewin iachach’. Ei nod yw cyflwyno’r drafft i’w gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2026. Cefnogir y broses gan ymgysylltiad a’r wybodaeth diweddaraf rheolaidd gan y Bwrdd, ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Nid yw’r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gwneud newidiadau mawr i’w strategaeth. Mae’n canolbwyntio ei weithgaredd ymgysylltu ar y rhannau o’r strategaeth y bydd angen eu diweddaru.

57 Pan fydd wedi ei chymeradwyo, bydd angen i’r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau llywodraethu a’i gynlluniau cefnogi i sicrhau eu bod yn cefnogi’r broses o gyflawni’r strategaeth. Ym mis Ionawr 2025, cytunodd y Bwrdd ar ddatganiad o ddiben ac amcanion strategol diwygiedig ar gyfer 2025-26.[2] Byddant yn cael eu profi drwy’r adnewyddiad strategol ac efallai y bydd angen eu mireinio o ganlyniad i hynny.

58 Mae’r Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo â’i Gynllun Gwasanaethau Clinigol[3], sef amcan cynllunio ar gyfer 2025-26. Cynhaliwyd rhaglen ymgynghori cyhoeddus yn ystod yr haf, a ddaeth i ben ar 31 Awst 2025, gan gynnwys ymgysylltiad eang ar draws cymunedau, staff, a grwpiau nas clywir yn aml. Cafodd y Bwrdd Iechyd gyfran o ymatebion cadarnhaol, ac roedd llawer ohonynt yn cynnig dewisiadau gwasanaeth amgen.

59 Er mwyn caniatáu amser i’w hystyried yn llawn, bydd y Bwrdd yn cynnal cyfarfod eithriadol ym mis Chwefror 2026. Mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi cynnal cyfarfodydd eithriadol i adolygu’r dewisiadau o safbwynt ansawdd. Fodd bynnag, nid yw’r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn cwmpasu’r holl wasanaethau ac ar y tymor canolig y mae’n pwysleisio.

---

[2] Datganiad o ddiben newydd y Bwrdd Iechyd yw: Bywydau Iachach, a Arweinir yn Dda, a’i amcanion strategol yw: Gweithlu sy’n Ffynnu, Cymunedau Iachach, Gofal Gwych a Dyfodol Cadarnhaol.

[3] Mae’r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn canolbwyntio ar naw gwasanaeth mwyaf brau y Bwrdd Iechyd.

60 Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn unol â Chynllun Blynyddol, oherwydd nad oedd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cymeradwy a oedd yn gytbwys yn ariannol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn bodloni'r gofynion ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac, felly, mae'n aros heb gael ei gymeradwyo. Trafodir sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn fanylach ym **mharagraff 71**.

61 Mae'r dull cynllunio cyffredinol yn ddigyfnewid. Mae cynlluniau'n dal i gael eu datblygu, ac mae ymgysylltiad a chydweithrediad da â'r Bwrdd a'r Grwpiau Gofal Clinigol. Mae'r trefniadau goruchwylio ar gyfer datblygu a chyflawni yn adlewyrchu strwythur y pwyllgor newydd yn briodol. Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ym mis Ebrill 2025 ar y broses cynllunio blynyddol a'r rhagdybiaethau ar gyfer 2025-26. Rhoddodd sicrwydd sylweddol i'r trefniadau goruchwylio, ond cododd fater ynghylch nodi cynlluniau arbed.

62 Er mwyn cryfhau ei ddull cynllunio ar gyfer 2026-27, mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu system haenu risgiau. Bydd hyn yn sail i'r gwaith cynllunio ac yn helpu i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r Matrics Blaenoriaethu Cynllunio yn categoreiddio risgiau (582 o risgiau) yn dair lefel:

- Llwybr 1 (Gwyrdd) – Materion y gellir eu datrys â'r adnoddau a'r llywodraethu cyfredol
- Llwybr 2 (Oren) – Heriau sydd angen cyllid ychwanegol neu gymorth i'r gweithlu
- Llwybr 3 (Coch) – Materion mawr ar draws y system y mae angen eu trawsnewid neu ymyrraeth allanol, megis cymorth gan Lywodraeth Cymru

63 Bydd y cynllun hefyd yn canolbwyntio ar amcanion ehangach megis iechyd poblogaeth ac atal.

## Sicrwydd y Bwrdd ar weithio mewn partneriaeth

64 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd arferol ar weithio mewn partneriaeth drwy'r wybodaeth ddiweddaraf am gyd-bwyllgorau y Bwrdd, cydweithrediadau rhanbarthol, a phartneriaethau statudol. Mae hyn yn cynnwys y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a chydweithredu â byrddau iechyd cyfagos.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Cyd-bwyllgor Rhanbarthol ffurfiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ers y llynedd. Cyfarfu'r pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2025 ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae ei gylch gorchwyl, y cytunodd y ddau Fwrdd arno, yn nodi pum amcan rhanbarthol.

66 Maent yn canolbwyntio ar yr economi iechyd rhanbarthol, gwasanaethau clinigol, swyddogaethau corfforaethol, y rhaglen cyfalaf rhanbarthol, ac ymchwil, arloesedd a rhagoriaeth. Mae rhaglen waith un pwrpas a chanddi arweinyddiaeth ar y cyd a ddiffinnir yn glir sy'n cefnogi pob amcan. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar draws y pum rhaglen yn amrywio, oherwydd eu bod ar wahanol gamau yn eu datblygiad.

67 Mae'r Cyd-bwyllgor Rhanbarthol wedi cyfarfod dair gwaith ers iddo gael ei sefydlu ac mae'n dal i ymgorffori ei brosesau. Canfu ein harsylwad waith craffu cadarn, ymdeimlad o gyfrifoldeb a rennir rhwng y ddau fwrdd iechyd a mwy o barodrwydd i gydweithio.

68 Er y disgwyliad i atebion rhanbarthol gefnogi cynaliadwyedd hirdymor yn y gwasanaethau, cododd swyddogion gweithredol ac Aelodau Annibynnol bryderon am y capasiti i ddatblygu a chyflawni'r rhaglenni hyn gan reoli pwysau gweithredol uniongyrchol ar yr un pryd.

69 Mae Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a'r tri awdurdod lleol perthnasol.[4] Nid yw'n un o bwyllgorau ffurfiol y Bwrdd. Ei nod yw cryfhau'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru, gyda blaenoriaethau gan gynnwys wroleg, rhewmatoleg, a mynd i'r afael â heriau gofal cymdeithasol megis oediadau llwybrau gofal.

70 Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, mae gan y pwyllgor sawl ffrwd waith sy'n cystadlu, sy'n cyfyngu ar ei allu i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

## Monitro'r broses o gyflawni strategaethau/cynlluniau

71 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd i fonitro a goruchwylio ei strategaethau a'i gynlluniau. Mae Cynllun Blynyddol 2025-26 yn canolbwyntio ar ddeg amcan cynllunio y mae pob ohonynt un yn mynd i'r afael â blaenoriaethau gweinidogol, dyletswyddau statudol, gofynion ymyrraeth wedi ei thargedu, neu alluogwyr hanfodol. Rhaglenni newid neu gynlluniau corfforaethol yw llawer o'r amcanion cynllunio. Er enghraifft, Cynllun Gwasanaethau Clinigol, Cynllun Digidol a Chynllun Ystadau. Mae hyn yn sicrhau goruchwyliaeth glir.

72 Mae pob amcan cynllunio wedi ei alinio â phwyllgor goruchwylio ac yn cael ei gefnogi gan gynllun cyflawni clir. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth gyflawni'r cynllun yn rheolaidd drwy Adroddiad Sicrwydd yr Amcanion Cynllunio, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio yn cynnal goruchwyliaeth gyffredinol o'r broses o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Blynyddol. Mae goruchwyliaeth gweithredol clir drwy sesiynau Gwella Gyda'n Gilydd Gweithredol ac is-grwpiau tîm gweithredol.[5]

---

[4] Mae Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Powys yn aelodau o Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru.

[5] Grwpiau Ansawdd, Cyllid, Perfformiad a Chyflenwi Integredig; Canolbarth a gorllewin iachach, a Gwerth a Chynaliadwyedd yw'r rhain.

73 Mae’r Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant, a gyflwynir i’r Bwrdd bob mis Tachwedd, yn parhau i roi sicrwydd ar y cynnydd o’i gymharu ag wyth amcan llesiant y Bwrdd Iechyd. Yn rhan o’i adnewyddiad strategol, mae’r Bwrdd Iechyd yn adolygu’r amcanion hyn i sicrhau eu bod yn gydnaws â’i amcanion strategol.

# Rheoli cyllid

## Er bod prosesau goruchwylio a rheoli ariannol priodol ar waith, mae’r sefyllfa ariannol yn dal i fod yn heriol

### Bodloni amcanion a dyletswyddau ariannol

74 Ni fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei holl ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2024–25. O’r tair dyletswydd, cyrhaeddodd ei derfyn adnoddau cyfalaf, gan adrodd tanwariant bach o £86,000. Fodd bynnag:

- ni wnaeth wario o fewn ei derfyn adnoddau refeniw ar gyfer cyfnod 2022-25
- nid oedd ganddo Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd y cytunwyd arno ar gyfer 2024-27.

75 Pennodd Llywodraeth Cymru ddiffyg targed o £31.5 miliwn ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 2024-25. Aeth y Bwrdd Iechyd y tu hwnt i hyn, gan adrodd diffyg o £24.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Cefnogwyd y gwelliant hwn gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, a leihaodd y cynllun ariannol gwreiddiol o ddiffyg arfaethedig o £64 miliwn i £31.5 miliwn. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd arbedion eraill hefyd.

76 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol cytbwys ar gyfer 2025-26. Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Blynyddol i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan ragweld diffyg o £31.5 miliwn. Er bod hyn yn cyflawni targed rheoli Llywodraeth Cymru, mae’r Bwrdd yn cydnabod bod y diffyg ariannol yn annerbyniol.

77 Ym mis Gorffennaf 2025, cyfleodd Llywodraeth Cymru ddisgwyliad diwygiedig i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26. Hynny yw bod yn rhaid i'r diffyg ar ddiwedd y flwyddyn fod yn hafal, fel isafswm, i sefyllfa alldro 2024-25, sef diffyg o £24.1 miliwn. Mewn ymateb, asesodd y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o ddewisiadau lleihau costau dros yr haf. Cyflwynwyd y cynigion hyn, a gefnogwyd gan asesiadau o'r effaith ar ansawdd, i'r Bwrdd ym mis Medi 2025.

78 Ym mis saith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei ddiffyg a ragwelir i £28.3 miliwn, sy'n cynnwys cyfran risg ychwanegol Cronfa Risg Cymru, sef £4.2 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd tanwariant o £1.2 miliwn ar ei sefyllfa hyd yn hyn eleni. Bydd angen iddo leihau'r gwariant gweithredol ymhellach i gyflawni ei gynllun diffyg diwygiedig.

## Trefniadau cynllunio ariannol

79 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal proses glir ar gyfer datblygu ei gynllun ariannol, sy'n gydnaws â'i broses cynllunio blynyddol. Mae timau corfforaethol, Grwpiau Gofal Clinigol, a phartneriaid busnes cyllid yn dal i nodi arbedion strategol a gweithredol ar y cyd. Mae grwpiau priodol ar lefel y Bwrdd a gweithredol yn goruchwylio'r broses o ddatblygu a chyflawni'r cynllun.

80 Mae gwaith datblygu cynllun ariannol blynyddol 2026-27 wedi dechrau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yr egwyddorion, yr amserlenni a'r dull cynllunio ym mis Hydref 2025. Bydd y pwyllgor yn cael y cynllun ariannol drafft ar gyfer 2026-27 ym mis Rhagfyr 2025. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol hirdymor eto, ond mae'n datblygu trywydd ariannol tair blynedd â'r nod o gyflawni sefyllfa lle bydd yn mantoli'r cyfrifon erbyn 2028-29. Trafodwyd y trywydd tair blynedd drafft yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a Seminar y Bwrdd ym mis Hydref 2025 a bydd yn cael ei ystyried eto yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2025.

81 Ar gyfer 2025-26, mae gan y Bwrdd Iechyd darged arbedion diwygiedig o £46.4 miliwn, a rennir yn £19 miliwn mewn arbedion rheolaidd a £27.4 miliwn mewn arbedion afreolaidd. Ym mis saith, mae wedi cyflawni £31.5 miliwn mewn arbedion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi £48.4 miliwn o arbedion, sydd £2 miliwn yn fwy na'i darged. Fodd bynnag, mae bwlch o £4.7 miliwn o hyd mewn arbedion rheolaidd. O'r arbedion a nodwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl cyflawni £48.1 miliwn.

82 Er mwyn pontio'r bwlch, mae'r tîm gweithredol wedi gofyn i'r gwasanaethau uwchgyfeirio am ddewisiadau arbedion eraill. O dan oruchwyliaeth yr Is-grŵp Rheoli Ariannol ar lefel weithredol, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd mesurau 'gafael a rheoli' sy'n canolbwyntio ar recriwtio, hyfforddi, a chaffael. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael diweddariadau rheolaidd am gynlluniau arbed, cyflawni, risgiau a chamau lliniaru.

83 Yn 2024, adolygodd Archwilio Cymru ddull arbed costau y Bwrdd Iechyd. Gwnaeth yr adolygiad ddeg argymhelliad â'r nod o gryfhau dull arbedion y Bwrdd Iechyd. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cwblhau'r holl argymhellion. Dengys **Atodiad 2** yr argymhellion a'u statws cyfredol.

## Trefniadau rheoli ariannol

84 Mae'r rheolaethau ariannol disgwyliedig ar waith gan y Bwrdd Iechyd, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael sicrwydd drwy'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol a diweddariadau gwrth-dwyll. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio'r adolygiad o'r gweithdrefnau a'r polisïau ariannol.

85 Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar reolaeth ariannol ar gyfer 2024-25, gydag un argymhelliad blaenoriaeth uchel a thri argymhelliad blaenoriaeth ganolig. Roeddent yn canolbwyntio ar ddirprwyo cyllideb, hyfforddiant i ddeiliaid cyllideb a defnyddio systemau monitro cyllidebau, a goruchwylio cynlluniau arbed yn weithredol.

86 Cyhoeddwyd llythyrau atebolrwydd i’r holl Grwpiau Gofal Clinigol a’r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol ym mis Chwefror 2025. Er bod deiliaid cyllidebau wedi llofnodi a dychwelyd y llythyrau, methodd lawer ohonynt y dyddiad cau oherwydd sgyrsiau parhaus am arbedion.

87 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo o hyd i gyflawni ei gynllun ariannol. Fel y llynedd, cynhelir goruchwyliaeth o’r sefyllfa ariannol drwy sawl grŵp ar lefel weithredol, gan gynnwys Sesiynau Gwella Gyda’n Gilydd Gweithredol a’r grwpiau Gwerth a Chynaliadwyedd, a’r grŵp Ansawdd Integredig, a’r grŵp Cyflawni Ansawdd, Cyllid a Pherfformiad Integredig. Mae llywodraethu grwpiau gofal clinigol yn well, a gwell trefniadau uwchgyfeirio mewnol, yn cefnogi goruchwyliaeth ymhellach.

88 Mae’r Adroddiad Sicrwydd ar Berfformiad Ariannol yn darparu dadansoddiad manwl o sbardunau allweddol gwariant, gan dynnu sylw at bwysau costau gweithredol. Mae deall sbardunau cost hefyd yn rhan o’r broses cynllunio ariannol blynyddol.

89 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da i archwilio allanol o fewn yr amserlenni gofynnol. Ni chanfu ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ond daethom o hyd i rai meysydd lle’r oedd angen gwneud cywiriadau. Gwnaethom gyhoeddi barn ddiamod mewn cysylltiad â gwirionedd a thegwch y cyfrifon, ond barn amodol ar reoleidd-dra oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau refeniw dros gyfnod treigl tair blynedd 2022–2025. Gwariant afreolaidd oedd hyn a oedd yn gofyn i’r farn ar reoleidd-dra fod yn amodol.

## Monitro perfformiad ariannol

90 Mae’r Bwrdd a’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cynnal goruchwyliaeth dda o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae’r Adroddiad Sicrwydd ar Berfformiad Ariannol yn darparu trosolwg clir o’r sefyllfaoedd refeniw a chyfalaf a’r sefyllfa a ragwelir, y cynnydd o ran arbedion, a’r pwysau cost allweddol. Mae defnydd da o siartiau, dangosfyrddau, a dadansoddiad o’r perfformiad gweithredol, sy’n helpu i dynnu sylw at risgiau a gweithredoedd allweddol.

91 Mae'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf drwy adroddiadau megis yr Adroddiad Sicrwydd ar Berfformiad Integredig a'r wybodaeth ddiweddaraf ymyrraeth wedi ei thargedu yn cefnogi'r oruchwyliaeth ymhellach. Mae prif gofrestr risgiau y Bwrdd Iechyd yn cynnwys risg lefel uchel i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.

92 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn darparu her dda ar y sefyllfa ariannol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau anodd yn ystod y misoedd diwethaf am ddewisiadau i fodloni disgwyliad diwedd y flwyddyn Llywodraeth Cymru. Mae'r trafodaethau hyn naill ai wedi digwydd yn gyhoeddus, neu, pan gawsant eu cynnal yn breifat, cawsant eu hadrodd yn y cyfarfod cyhoeddus nesaf. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i dryloywder.

# Argymhellion

94 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn y tabl canlynol.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal sesiwn friffio gydag Aelodau Annibynnol i egluro proses 'Tair A' (Alert, Advise, Assure) (gweler paragraffau 24 a 25). |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio pwyllgorau (gweler **paragraffau 37**). |

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Gwnaethom edrych ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2025 a mis Hydref 2025:

- Pa mor dda y mae'r bwrdd yn gweithio
- Pa mor dda y mae'r bwrdd yn goruchwylio risgiau, y perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn olrhain argymhellion
- Pa mor dda y mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol
- Pa mor dda y mae'r corff yn rheoli ei gyllid

Ni wnaethom edrych ar drefniadau gweithredol y corff.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A yw Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o lunio cynlluniau strategol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni?
- A oes dull corfforaethol cadarn ar gyfer cynllunio, rheoli, a'r perfformiad ariannol?

### Meini prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Orchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)

# Dulliau

Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill

Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Prif Swyddog Gweithredol
- Dirprwy Brif Weithredwr
- Cadeirydd y Bwrdd
- Is-gadeirydd
- Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Gofal Cleifion
- Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Aelod Annibynnol – Cymuned

Gwelsom gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Digidol, Data ac Arloesi
- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

- Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Y Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Cyd-bwyllgor Rhanbarthol Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda
- Bwrdd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru

# 2 Argymhellion o archwiliadau blaenorol

## Argymhellion sy’n weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

Mae’r tabl isod yn nodi’r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion sy’n weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhellion 2024 | |
|---|---|
| **A1** | Dylai’r Bwrdd Iechyd ddiweddaru dogfennau ei Fframwaith Gwella Gyda’n Gilydd, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu’n ddigonol y broses o reoli’r perfformiad cyfredol a threfniadau uwchgyfeirio mewnol. Wrth ddiweddaru’r fframwaith, dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd fod y ddogfennau yn cynnwys trefniadau (**cwblhawyd, paragraff 43**):<br>• isgyfeirio ac yn cefnogi cyfarwyddiaethau ar y lefel uwchgyfeirio uchaf am gyfnodau estynedig<br>• cydlynu cymorth ar gyfer cyfarwyddiaethau sydd wedi eu huwchgyfeirio dros sawl parth. |

**A2** Bob blwyddyn o leiaf, dylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gael diweddariad annibynnol ar y gweithgareddau Gwella Ansawdd, gan gynnwys cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth weithredu'r Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd (2023-2026), crynodeb o'r mentrau gwella a'r effaith y maent yn ei chael hyd yma (**cwblhawyd, paragraff 48**).

**A3** Er mwyn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ganolog i'w weledigaeth hirdymor, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei amcanion llesiant yn rhan o adnewyddu ei strategaeth hirdymor arfaethedig (**ar y gweill, paragraff 71**).

**Argymhellion 2023**

**A3** O ystyried bod y Bwrdd Iechyd o dan drefniadau Monitro Uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth, mae lle i ddangos effeithiolrwydd Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o roi sicrwydd yn gyfnodol fod ei drefniadau rheoli perfformiad yn gweithio fel y bwriadwyd (**cwblhawyd, paragraff 44**).

**Argymhellion 2022**

**A2** Er bod rhai newidiadau wedi eu gwneud, mae'r strwythur gweithredol yn dal i beri risgiau i strwythurau llywodraethu dryslyd ac anghyson. O ystyried maint a chymhlethdod yr heriau a'r risgiau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, mae'n bwysig bod gwaith arfaethedig i ddiwygio'r strwythurau gweithredol a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig yn gwneud cynnydd ar frys (**cwblhawyd, paragraff 34**).

**A6** Nid yw cynllun adfer ariannol tymor hwy y Bwrdd Iechyd wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r heriau ariannol a brofir yn 2022-23. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei gynllun adfer ariannol tymor hwy ar gyfer 2023 ymlaen, gan sicrhau yr adlewyrchir cyfleoedd i wella (**disodlwyd, paragraff 78**).

# Argymhellion o’n Hadolygiad 2024 o Drefniadau Arbed Costau

Mae’r tabl isod yn nodi’r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o’n Hadolygiad 2024 o Drefniadau Arbed Costau

| | |
|---|---|
| **A1** | Pan fo hynny’n briodol, dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Cyfarwyddiaethau yn ystyried ac yn gweithredu’n rheolaidd ei waith canolog ar feincnodi arbedion costau, a dadansoddi amrywiaeth (**cwblhawyd**). |
| **A2** | Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Fframwaith Cyfleoedd yn cynnwys dull mwy systematig o geisio safbwyntiau rhanddeiliaid, y staff a defnyddwyr y gwasanaeth wrth gynhyrchu syniadau am arbedion (**cwblhawyd**). |
| **A3** | Dylai’r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ganllawiau a’i ddulliau llywodraethu o amgylch prosesau y Ddogfen Cychwyn Prosiect ac Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd ar gyfer arbedion. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson a ddogfennir ac a ddeellir yn glir ar gyfer ystyried ansawdd, diogelwch cleifion, ac effeithiau penderfyniadau arbedion yn y Bwrdd Iechyd (**cwblhawyd**). |

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r ffordd y mae'n cynllunio ei arbedion drwy gryfhau'r integreiddiad rhwng ei waith cynllunio gweithredol ariannol blynyddol a'i drefniadau cynllunio arbedion. Dylai hyn ddarparu mwy o eglurder ynghylch y rhyng-ddibyniaeth rhwng cyflawni cyllidebau blynyddol ac arbedion a sicrhau bod cynlluniau arbed yn adlewyrchu'n llawn y cyfleoedd arbed penodol sy'n bodoli mewn Cyfarwyddiaethau unigol (**cwblhawyd**).

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu galluoedd trawsnewidiol digonol a chapasiti i gefnogi Cyfarwyddiaethau i nodi a chyflawni arbedion trawsnewidiol ehangach (**cwblhawyd**).

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio ffyrdd o wella ymgysylltiad clinigol wrth nodi a chyflawni arbedion er mwyn cynyddu'r potensial i'r cynlluniau arbed gyflawni eu buddion llawn (**cwblhawyd**).

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i'r modd y mae'n adrodd arbedion costau, drwy:

**7.1** Sicrhau bod adroddiadau arbedion yn y dyfodol yn nodi'n glir yr holl arbedion y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni mewn blwyddyn benodol i fodloni ei gyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru (**cwblhawyd**).

**7.2** Cefnogi aelodau y Bwrdd i gryfhau eu sgiliau llythrennedd ariannol er mwyn eu galluogi i ddeall cynnwys adroddiadau cyllid yn well ac i ddarparu goruchwyliaeth a chraffu'n effeithiol (**cwblhawyd**).

**7.3** Blaenoriaethu gwaith ar ei 'fersiwn sengl o'r gwirionedd' er mwyn cadarnhau darlun cynhwysfawr o'r arbedion ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau'r prosesau monitro, adrodd a dysgu a rennir (**cwblhawyd**).

**A8** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei waith cynllunio arbedion ar gyfer 2025-26 yn dechrau yn gynharach a'i fod yn rhoi rhagor o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd i ddwyn arbedion rheolaidd drwy drawsnewid ac ad-drefnu gwasanaethau (**cwblhawyd**).

**A9** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd weithredu camau effeithiol i reoli'r risg gynhenid y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chario ar hyn o bryd yn ei gynlluniau arbed 2024-25, drwy flaenoriaethu'r ffordd orau o droi ei gynlluniau arbed coch a du presennol yn gynlluniau gwyrdd ac oren rheolaidd sydd â siawns realistig o gyflawni'r arbedion a nodwyd (**cwblhawyd**).

**A10** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull mwy systematig o rannu dysg am arbedion rhwng Cyfarwyddiaethau a pharhau i weithredu'r ddysg o'i adolygiadau mewnol diweddar yn ei drefniadau arbedion, a'r hyn a ddysgir o'r newidiadau diweddar o ganlyniad i ddarganfod concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (**cwblhawyd**).

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau sylweddol y sefydliad (naill ai'r rhai sydd â sgoriau uchel neu'r rhai sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w rheoli. |
| **Gwrth-dwyll** | Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgareddau y mae'r sefydliad yn eu gwneud i atal, canfod, ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyaeth, a llygredd. Arweinir y gwaith hwn gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, sy'n gweithredu o dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn bodloni ei ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon yw Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Ansawdd Llywodraethu** | Cyfuniad o strwythurau, prosesau, ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain a sicrhau perfformiad o ansawdd uchel, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion, yw ansawdd llywodraethu. |
| **Cofrestr Fuddiannau** | Mae'r Gofrestr Fuddiannau yn helpu i sicrhau tryloywder drwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau busnes sydd gan aelodau y Bwrdd a'r staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau. |
| **Cynllun Cadw a Dirprwyo** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo yn nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd a pha rai sy'n cael eu trosglwyddo i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol. |
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** | Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, y polisïau a'r gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. |
| **Rheolau Sefydlog** | Mae rheolau sefydlog yn nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad yn eu defnyddio i weithredu ac i wneud penderfyniadau. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** | Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n gynaliadwy ac ar y cyd i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol, drwy osod nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau y dyfodol. |

# 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| | |
|---|---|
| Corff a archwiliwyd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Enw'r archwiliad | Asesiad Strwythuredig 2025 |
| Derbyniwyd yr ymateb | 19 Tachwedd 2025 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal sesiwn friffio gydag Aelodau Annibynnol i egluro proses 'Tair A' (Alert, Advise, Assure). | Cynnal sesiwn mewn Sesiwn Datblygu Aelodau Annibynnol ar y defnydd cywir a chyson o asesiadau 'Tair A' mewn cyfarfodydd.<br><br>Cynnwys meini prawf 'Tair A' ym Mriffiau y Cadeirydd er mwyn annog Cadeiryddion i wneud asesiad ar ddiwedd pob eitem agenda. | 31 Ionawr 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio pwyllgorau. | Cynhwysir trefniadau goruchwylio gan bwyllgorau ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn yr wybodaeth ategol ar Ddangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. | 30 Tachwedd 2025 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.